

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

9fed IONAWR 2024 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **Presennol** - Ceri Owen (Cad), Barry Bracegirdle, Dylan Herbert, Erfyl Williams (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni) Dafydd Thomas (Nebo) Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn), Cyng. Peter Thomas.

Ymddiheuriadau -derbyniwyd ymddiheuriadau gan Justin Davies, Judith Humphreys (Penygroes) Ffion Jones (Nantlle) Siân Dafydd (Talysarn).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes Ceri Owen, ac estynnwyd cydymdeimlad dwysaf â Siân Dafydd â'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar o golli tad Siân.

2. **Datgan Buddiant** - nid oedd neb yn datgan unrhyw fuddiant yn y materion fydd yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod.

3. **Gwadd - Denise Meldrum a Mike Vitovitch (gwirfoddolwyr y Gymdeithas Geffylau - BHS)** - croesawyd y ddau i'r cyfarfod ac esboniwyd bod pawb wedi derbyn copi o'r e-bost ynglŷn â llwybr RB82 Llanllyfni / Nebo yr oeddynt wedi ei anfon er mwyn ei ddarllen ymlaen llaw i'r cyfarfod. Rhoddwyd y drafodaeth drosodd i Denise a Mike egluro ymhellach. Esboniwyd bod y llwybr hwn wedi ei rwystro gan berchnogion y tir y mae yn rhedeg drwyddo a hyn ers oddeutu 2015 a chwynion wedi ei roi ymlaen i Gyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned am hyn. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud llawer o waith ar y llwybr er mwyn ei wneud yn gerddadwy ac ar gyfer defnydd ceffylau, ond mae'r tîrfeddianwyr yn atal ceffylau a'u perchnogion rhag ei ddefnyddio gan ddadlau mae llwybr troed ydi hwn a dim cilffordd. Esboniwyd, ar gopi gweithio a gwefan Cyngor Gwynedd mae lawr fel llwybr troed, ond yn gyfreithiol mae yn gillffordd gyfyngedig. Felly mae'r BHS yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gysidro cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y mater a'u bod wedi newid ei statws heb ymgynghoriad a bod y llwybr dal yn cael ei rwystro sydd yn achosi problemau. Trafodwyd y mater a chytunodd y Cyngor i lythyru Cyngor Gwynedd am y mater. Hefyd, y clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd pwy sydd â chyfrifoldeb dros y llwybr. Diolchwyd i'r ddau am eu presenoldeb a'r esboniad a bu iddynt adael y cyfarfod.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 12fed Rhagfyr 2023** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd - Tir Cwtin** - y clerc wedi cysylltu gyda dau gyfreithiwr i gael prisiau am y gwaith cyfreithiol fydd yn ymwneud a rhoi prydles ar y tir i Bwyllgor Cwtin. Wedi derbyn prisiau o: 1) £1500 + Taw 2) £3000. Fel y trafodwyd yn barod Pwyllgor Cwtin fydd yn talu'r holl gostau cyfreithiol hyn. Trafodwyd y prisiau a gofynnwyd i'r gadeiryddes pe bai yn fodlon siarad gyda hwy er mwyn rhoi'r pictiwr llawn a gwneud yn siŵr fod y prisiau hyn yn iawn. Rhoddwyd caniatâd llawn wedi iddi roi'r gwaith i'r cyfreithwyr gyda'r pris lleiaf gan fod gwahaniaeth eithaf yn y prisiau. Yn dilyn cadarnhau hyn yna bydd yn rhaid i gyfreithwyr y ddwy ochr gysylltu er mwyn symud pethau ymlaen. **Golau Nadolig** - Gwyndaf wedi trafod gyda RJ Electrics am y golau ac maent am edrych arnynt a gyrru adroddiad o beth sydd angen ei wneud i'w atgyweirio at y flwyddyn nesaf. **Materion Pentrefi** - nid yw'r gwaith ar y cerb tu allan i'r Co-op na 80 Trem Yr Wyddfa wedi ei wneud. **Safle bws** - wedi derbyn pris gan Designer Signs o £96 i gario allan y gwaith atgyweirio - gofyn i'r clerc gysylltu nôl i ofyn iddynt barhau â'r gwaith.

6. **Sedd Wag Ward Talysarn** – yn dilyn o roi hysbyseb allan am y sedd wag nid oedd unrhyw enwau wedi dod fewn erbyn y dyddiad cau. Gofyn felly am awgrymiadau o enwau i'w rhoi ymlaen.

7. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - diolchwyd i'r Cyng. Peter Thomas am ei adroddiad yr oedd pawb wedi ei dderbyn ymlaen llaw i'r cyfarfod. Esboniodd bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymweld â maes parcio Canolfan Talysarn ynglŷn â'r carafanau a'r caban sydd wedi eu parcio yno

8. **Materion Pentrefi - Talysarn** - cwynion wedi ei derbyn bod Marchnad Llew yn symud o Ganolfan Talysarn i Neuadd Penygroes - pam? Adroddwyd bod hyn am resymau costau rhedeg y farchnad. Gofyn i'r clerc yrru llythyr i Gwyn William i ddiolch am ei gymorth gyda gosod y goeden Nadolig eto eleni. Cwynion bod ceir a faniau yn parcio wrth yr

Eglwys sydd yn ei gwneud yn anodd i gerbydau sy'n dod lawr Lôn Eglwys weld i ddod allan i'r ffordd. **Llanllyfni** -dim mater yn codi. **Penygroes** - twll ar y ffordd tu allan i 5 Bryn Llwyn a waliau wedi disgyn dros y ffordd i'r Eglwys ac yn islawr - cytunodd Ceri i gysylltu gydag ADRA am y materion yma. Maes parcio Wynnstay - twll yno. Mater i berchnogion y cwmni yw hwn. **Nebo** - Ffordd Nasareth - y conau a'r cerrig dal yn y ffordd ers dwy flynedd bellach. Y golau Nadolig wedi torri yn y gwynt ar glaw ac yn gofyn am rai newydd at eleni? Mae yna rai wedi eu prynu a oedd rhy hir i goeden Talysarn felly pasio'r rhain ymlaen i Nebo.

9. Cyfarfodydd is-bwyllgorau / cyfarfodydd yn ystod y mis – ni chafwyd is-bwyllgorau na chyfarfodydd yn ystod y mis.

10. Taflen ariannol a chyllid - roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb i edrych drosto - nid oedd dim yn codi. **Praesept 2024/25** - esboniwyd mai yn 2021/22 oedd y tro diwethaf i'r Cyngor Cymuned godi'r praesept a £50,000 ydi o yn bresennol. Trafodwyd beth fuasai codi'r praesept yn golygu o ran costau i drigolion y Dyffryn. Teimlad oedd bod yn dipyn o arian yn sefyll yn y banc ac felly methu cyfiawnhau ei godi eleni. Cynigwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol i'w gad war £50,000 am eleni. **Argyfwng Costau Byw** - bydd angen rhoi mwy o sylw i'r pwnc yma o hyn ymlaen a chynigwyd efallai yn syniad gofyn i Judith arwain ar hyn? Hefyd cynigwyd gofyn i Trey McCain ddod fewn i drafod syniadau ar beth all y cyngor wneud i helpu gyda hyn. Efallai syniad gofyn i rywun o'r Orsaf ddod hefyd gan eu bod nhw yn ymwneud llawer a'r mater hwn hefyd. **Costau torri llwybrau** - codwyd y sylw nad yw'r llwybrau i gyd yn cael eu torri fel sydd yn y contract. Cynigwyd yn y Gwanwyn y dylid dechrau mynd o gwmpas y llwybrau yn nodi os oes rhywbeth angen ei dorri. Eiliwyd a chytunwyd gyda hyn.

11. Llwybrau a Mynwentydd - Llwybr Lôn Groes - roedd y clerc wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â cheffylau yn cael eu marchogaeth ar y llwybr hwn. Bu i'r clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a chadarnhawyd bod y llwybr yn gilffordd a bod ganddynt hawl i'w ddefnyddio. Y clerc wedi cysylltu nôl gyda'r cyhoedd am hyn. **Difrod Mynwent Macpela** - adroddwyd bod difrod wedi ei wneud i ddrws y cwt yn y fynwent - cadw golwg ar y sefyllfa. Hefyd mae rhan o wal wedi disgyn ac angen ei atgyweirio. Gofynnwyd i'r clerc roi hysbyseb allan am y gwaith hwn, a'r prisiau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf (13eg Chwefror). Sbwriel dal yn cael eu gadael yn y fynwent - penderfynwyd gofyn i Designer Signs roi arwydd newydd fel yng Ngorffwysfa i fyny ac wedyn bydd angen monitro'r sefyllfa i weld os yw yn gwella. Mae angen gosod peipen ddŵr yn y fynwent a bydd yn rhaid rhoi'r gwaith allan i dendr. Gwyndaf i yrru'r manylion i'r clerc er mwyn hysbysebu'r gwaith. **Mynwent Gorffwysfa** - Tyllau mewn dau fedd yn y fynwent - angen gofyn i'r contractwyr os awn yno i'w llenwi.

12. Ceisiadau Ariannol - dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau ydi 31ain Ionawr a bydd angen cyfarfod i'w trafod cyn y cyfarfod llawn nesaf. Penderfynwyd cynnal y cyfarfod ar 7fed Chwefror am 7.00 o'r gloch.

13. Ceisiadau cynllunio - C23/1003/22/YA – Fferm Glaslyn, Tŷ Mawr West, Talysarn – adeiladu trac amaethyddol – DIM GWRTHWYNEBIAD.

14. Gohebiaeth – nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn dros y mis.

15. Materion ariannol - cytunwyd i dalu'r pethau ar yr agenda. Nia Jones ffôn a rhyngrwyd £25. Archwilio Cymru ffi archwiliad allanol 2021/22 £290. RJ Electrics - gosod a thynnu golau nadolig £3661.40. Papur Bro Lleu - hysbyseb ceisiadau ariannol £34.00.

16. Unrhyw fater arall - gofyn i Carys, Canolfan Talysarn os oes modd cael defnyddio'r ystafell gyfarfod fach o hyn ymlaen gan ei bod yn oer yn y brif Neuadd.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal Nos Fawrth, 13eg Chwefror 2024 am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.